

Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu

Ymgynghoriad ar ddiwygio'r gweithdrefnau

Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd 3 Rhagfyr 2024

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 25 Chwefror 2025

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	3
2. Cyflwyniad	5
3. Newidiadau arfaethedig i'r Gweithdrefnau Cyffredinol.....	10
4. Y camau nesaf a gynigir	27

Atodiad

A1. Asesiadau effaith	28
A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn.....	31
A3. Egwyddorion ymgynghori Ofcom	35
A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad	36
A5. Cwestiynau'r ymgynghoriad	38
A6. Gweithdrefnau Cyffredinol diwygiedig arfaethedig.....	40
A7. Gweithdrefnau Cyffredinol Presennol	41

1. Trosolwg

- 1.1 Mae Gweithdrefnau cyffredinol Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu ("Gweithdrefnau Cyffredinol") yn nodi'r broses rydym yn ei dilyn wrth asesu ac ymchwilio i achosion posibl o dorri'r rhan fwyaf o amodau trwydded, oni bai fod gweithdrefnau penodol eraill yn berthnasol.
- 1.2 Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn am ein cynigion i ddiwygio'r Gweithdrefnau Cyffredinol.

Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Rydym yn cynnig diwygio'r Gweithdrefnau Cyffredinol i wneud y newidiadau o bwys fel a ganlyn:

- cyhoeddi fframwaith newydd a manylach ar gyfer blaenoriaethau gweinyddol;
- egluro ein safbwynt ar rannu gwybodaeth am gwynion â'r darlledwr;
- peidio â rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r sawl sy'n cwyno am ganlyniad ein hasesiadau; a
- pennu cyfyngiad amser ar gyfer gwneud cwynion.

Rydym hefyd yn manteisio ar y cyfle hwn i:

- ailstrwythuro'r gweithdrefnau i'w gwneud yn haws eu dilyn; a
- symleiddio, diweddarau ac egluro rhywfaint o'r testun.

- 1.3 Mae gan Ofcom ddyletswydd gyffredinol i sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig, yn ogystal â dyletswyddau mwy penodol sy'n ymwneud â darlledu. Rydym yn cyflawni ein dyletswyddau drwy ddyfarnu trwyddedau darlledu sy'n cynnwys amodau trwydded sydd, yn ein barn ni, yn briodol i'n helpu i gyflawni ein dyletswyddau. Y Gweithdrefnau Cyffredinol sy'n rheoli'r broses o orfodi'r rhan fwyaf o amodau'r drwydded.
- 1.4 Cafodd y Gweithdrefnau Cyffredinol eu diweddarau ddiwethaf ym mis Ebrill 2017. Ers hynny, mae datblygiadau wedi bod yn y mathau o ddarlledwyr rydym yn eu rheoleiddio, newidiadau yn ein dull rheoleiddio a chynnydd cyffredinol mewn gweithgarwch o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol. Yng nghyd-destun y datblygiadau hyn, rydym yn credu ei bod yn briodol adolygu a diweddarau ein Gweithdrefnau Cyffredinol i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r diben a'n bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

Y camau nesaf

- 1.5 Rydym nawr yn gofyn am farn am ein cynigion. Ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben, byddwn yn gwerthuso'r ymatebion cyn penderfynu a ddylid mabwysiadu'r Gweithdrefnau Cyffredinol newydd a gynigiwn, gyda diwygiadau neu hebddynt. Byddwn wedyn yn cyhoeddi datganiad am ein penderfyniad ynghyd ag unrhyw fersiwn newydd.
- 1.6 Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 25 Chwefror 2025.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

2. Cyflwyniad

- 2.1 Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer sector cyfathrebu'r DU, sy'n cynnwys y sector darlledu. Mae gennym amrywiaeth o bwerau sy'n ein galluogi i gyflawni ein swyddogaethau sy'n ymwneud â'r sector hwn gan gynnwys pwerau yn Neddfau Darlledu 1990 a 1996 a Deddf Cyfathrebiadau 2003.
- 2.2 Mae gan Ofcom ddyletswydd gyffredinol i sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac yn apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau. Mae gan Ofcom ddyletswyddau mwy penodol hefyd ynghylch gofynion sydd wedi'u cynnwys mewn trwyddedau darlledu, darparu gwasanaethau mynediad ar gyfer teledu a rhoi rheolau ar waith sy'n cyfyngu ar y rheini sy'n dal trwyddedau darlledu.
- 2.3 Rydym yn cyflawni ein dyletswyddau drwy ddyfarnu trwyddedau i rai darlledwyr teledu a radio sy'n cynnwys amodau trwydded sydd, yn ein barn ni, yn briodol i'n helpu i gyflawni ein dyletswyddau.
- 2.4 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni hefyd ystyried
 - a) anghenion a buddiannau perthnasol grwpiau penodol o bobl a nodir yn adran 3(4) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau; a
 - b) ein dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus, gan gynnwys hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol, a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

Diben y Gweithdrefnau Cyffredinol

- 2.5 Mae'r Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu ("Gweithdrefnau Cyffredinol") yn nodi'r broses rydym yn ei dilyn wrth asesu ac ymchwilio i achosion posibl o dorri'r rhan fwyaf o amodau trwydded, oni bai fod gweithdrefnau penodol eraill yn berthnasol. Mae gweithdrefnau penodol eraill ar gyfer asesu ac ymchwilio i safonau cynnwys, tegwch a phreifatrwydd, a materion sy'n ymwneud â chystadleuaeth. Mae'r Gweithdrefnau Cyffredinol yn berthnasol i bob darlledwr sydd â thrwydded Ofcom ac S4C (nad oes angen trwydded gan Ofcom). Nid yw'r Gweithdrefnau Cyffredinol yn berthnasol i sianeli gwasanaeth cyhoeddus y BBC, ond maen nhw'n berthnasol i sianeli masnachol y BBC sydd â thrwydded Ofcom.
- 2.6 Mae'r gweithdrefnau'n berthnasol i asesiadau ac ymchwiliadau i achosion posibl o dorri amodau trwydded penodol y cyfeirir atyn nhw yn y Gweithdrefnau Cyffredinol fel "gofynion perthnasol". Mae'r rhain yn cynnwys gofynion ar gyfer:
 - a) darlledu mathau penodol o gynnwys a chyflawni rhai cwotâu cynhyrchu a rhaglenni sydd fel arfer wedi'u nodi yn y drwydded;
 - b) rhoi'r wybodaeth a/neu recordiadau mae Ofcom yn gofyn amdani i Ofcom;
 - c) talu ffioedd trwydded blynyddol; a
 - d) cydymffurfio â chodau a rheolau Ofcom a bod â gweithdrefnau cydymffurfio digonol ar waith i gyflawni hyn.
- 2.7 Bwriad y Gweithdrefnau Cyffredinol hyn yw sicrhau bod ein camau gorfodi yn gymesur, yn gyson ac yn benodol dim ond pan fo mae angen gweithredu.

- 2.8 Eu bwriad hefyd yw sicrhau bod ein camau gorfodi yn deg ac yn dryloyw, bod y darlledwr yn cael cyfle teg i ymateb i achos Ofcom, a bod achosion yn cael eu cwblhau'n effeithlon ac mor brydlon â phosibl.

Y newidiadau rydym yn eu cynnig

- 2.9 Rydym yn cynnig diwygio'r Gweithdrefnau Cyffredinol i wneud y newidiadau o bwys fel a ganlyn:
- i) cyhoeddi fframwaith newydd a manylach ar gyfer blaenoriaethau gweinyddol;
 - ii) egluro ein safbwynt ar rannu gwybodaeth am gwynion â'r darlledwr;
 - iii) peidio â rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r sawl sy'n cwyno am ganlyniad ein hasesiadau; a
 - iv) pennu cyfyngiad amser ar gyfer gwneud cwynion.
- 2.10 Rydym hefyd yn manteisio ar y cyfle hwn i:
- i) ailstrwythuro'r gweithdrefnau i'w gwneud yn haws eu dilyn; a
 - ii) symleiddio, diweddarau ac egluro rhywfaint o'r testun i'w gwneud yn haws ei ddarllen a chyfeirio ato, er mwyn adlewyrchu ein profiad o orfodi o ddydd i ddydd, ac egluro'r camau gweithdrefnol rydym yn bwriadu eu dilyn ym mhob achos.
- 2.11 Mae'r newidiadau arfaethedig yn cael eu disgrifio'n fanylach yn Adran 3. Rydym hefyd wedi cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig arfaethedig o'n Gweithdrefnau Cyffredinol ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

Pam rydym yn adolygu'r Gweithdrefnau Cyffredinol nawr

- 2.12 Cafodd y Gweithdrefnau Cyffredinol eu diweddarau ddiwethaf ym mis Ebrill 2017. Ers 2017, mae datblygiadau wedi bod yn y mathau o ddarlledwyr rydym yn eu rheoleiddio, newidiadau yn ein dull rheoleiddio a chynnydd cyffredinol mewn gweithgarwch o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol. Yng nghyd-destun y datblygiadau hyn, a ddisgrifir yn fanylach isod, rydym yn credu ei bod yn briodol adolygu a diweddarau ein Gweithdrefnau Cyffredinol i gyflawni'r nodau canlynol.

Gwneud y Gweithdrefnau Cyffredinol yn haws eu defnyddio i adlewyrchu newid yn y darlledwyr rydym yn eu rheoleiddio

- 2.13 Rydym wedi cyflwyno trwyddedau rhaglenni sain digidol cymunedol a DAB ar raddfa fach. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i sut rydym yn trwyddedu gwasanaethau radio cyfyngedig. Mae'r mathau newydd hyn o drwyddedau a newidiadau i wasanaethau radio cyfyngedig yn golygu ein bod nawr yn rheoleiddio mwy o ddarlledwyr llai o ran maint, llawer ohonynt yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r cwynion a gawn bob blwyddyn o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol yn ymwneud â gwasanaethau radio ac yn enwedig y rheini sy'n cael eu rhedeg gan ddarlledwyr llai.
- 2.14 Mae pob trwydded yn cynnwys gofyniad i ddarlledwyr gael gweithdrefnau cydymffurfio digonol ar waith, gan gynnwys cael pobl sy'n ymwneud â'r gwasanaeth sy'n ymwybodol o godau a rheolau Ofcom, a sicrhau bod y darlledwr yn cydymffurfio â nhw. Fodd bynnag, bydd sut mae darlledwr yn rheoli ei ffordd o gydymffurfio yn amrywio yn dibynnu ar ei fodel

gweithredu. Ar gyfer darlledwyr mwy, maen nhw'n debygol o fod ag aelod cyflogedig o staff neu dîm i ddelio â materion cydymffurfio. Ar gyfer darlledwyr llai a/neu ddarlledwyr sy'n cael eu harwain gan wirfoddolwyr, efallai mai staff neu wirfoddolwyr a allai fod yn gyfrifol am sawl agwedd ar weithredu'r gwasanaeth sy'n cyflawni'r swyddogaeth cydymffurfio. Efallai hefyd nad oes ganddynt lawer o brofiad ymarferol yn ymwneud â chydymffurfio ym maes darlledu a/neu'r Gweithdrefnau Cyffredinol.

- 2.15 Rydym yn cydnabod y gallai darlledwyr llai neu amhrofiadol sy'n newydd i'r farchnad ei chael hi'n anodd deall a/neu ddefnyddio'r Gweithdrefnau Cyffredinol. Gan ystyried y newid hwn yn y math o ddarlledwyr rydym yn eu rheoleiddio, rydym felly'n gweld gwerth penodol mewn diwygio'r gweithdrefnau i'w gwneud yn haws eu defnyddio.

Sicrhau cymesuredd a hyblygrwydd yn dilyn symleiddio ein dull ar gyfer y Prif Ymrwymadau


- 2.16 Mae'r rhan fwyaf o'r asesiadau rydym yn eu cynnal o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol yn ymwneud â'r ymrwymadau rhaglennu a nodir mewn trwyddedau radio cymunedol, a elwir yn "Brif Ymrwymadau". Rydym wedi cyhoeddi ein [datganiad ar ein dull gweithredu ar gyfer y Prif Ymrwymadau yn y dyfodol](#), sy'n nodi y byddwn yn symleiddio trwyddedau radio cymunedol analog (y rheini sy'n darlledu ar AM ac FM) drwy ddileu rhai cwotâu a gofynion o'r Prif Ymrwymadau. Rydym hefyd wedi cyhoeddi egwyddorion cydymffurfio sy'n ymwneud â'r Prif Ymrwymadau i gyd-fynd â'r datganiad hwnnw. Mae'r newidiadau hyn yn debygol o arwain at gryn newid yn y math o gwynion a gawn, ac felly mae'n amser priodol i adolygu ein dull o asesu cwynion a ddaw i law o dan y gweithdrefnau hyn.
- 2.17 Ar ôl eu rhoi ar waith, bydd dileu cwotâu a gofynion yn y trwyddedau hyn yn golygu na fyddwn mwyach yn asesu cwynion, nac yn agor ymchwiliadau, am y gofynion allbwn hyn ar wasanaethau radio cymunedol. Mae hyn yn golygu y bydd newid sylweddol yn y math o gwynion a gawn. Gall hefyd olygu cynnydd mewn cwynion mwy cyffredinol ac ansoddol ynghylch a yw darlledwr radio cymunedol yn cydymffurfio â naill ai natur ei wasanaeth neu ei ofynion o ran budd cymdeithasol.
- 2.18 Er bod gennym eisoes brofiad o ddelio â chwynion o'r fath, mae'n briodol sicrhau bod y Gweithdrefnau Cyffredinol yn dal yn addas i'r diben wrth i'r mathau o achosion rydym yn delio â nhw esblygu. Felly, bydd yn arbennig o bwysig sicrhau bod ein Gweithdrefnau Cyffredinol yn parhau i fod yn gymesur ac yn hyblyg, gan ddarparu eglurder a thryloywder i randdeiliaid ynghylch sut rydym yn asesu cwynion. Dylai hyn helpu rhanddeiliaid i ddeall y math o achosion lle rydym yn credu mai dyma'r ffordd orau o ddefnyddio ein hadnoddau a'n bod yn debygol o fynd ar eu trywydd (er y gallwn fynd ar drywydd unrhyw amheuaeth o dorri amodau trwydded neu ofynion statudol).

Cyfeirio ein hadnoddau wrth i gwynion a gwaith gorfodi gynyddu

- 2.19 Mae cynnydd wedi bod yn nifer y cwynion a'r gwaith gorfodi cysylltiedig gyda'r gofynion perthnasol dan y Gweithdrefnau Cyffredinol. Rydym am sicrhau ein bod yn cyfeirio ein hadnoddau at yr achosion lle rydym ni o'r farn bod ein gwaith o orfodi'r gofynion fwyaf tebygol o arwain at ganlyniadau da i ddinasyddion a defnyddwyr.
- 2.20 Yn gyffredinol, mae gennym broses orfodi dau gam: yn ystod y cam asesu rydym yn ystyried a oes mater yn codi o dan unrhyw un o'r gofynion perthnasol y mae'n rhaid i ddarlledwyr

gydymffurfio â nhw. Mewn achosion sy'n ymwneud â chynnwys (ond nid ydynt yn ymwneud â materion sy'n ymwneud â safonau cynnwys, sy'n cael eu hystyried o dan weithdrefnau ar wahân), rydym fel arfer yn gofyn i'r darlledwr am recordiadau o gynnwys a gwybodaeth i'n helpu yn ein hasesiad. Os byddwn, o ganlyniad i'n hasesiad, o'r farn bod problemau yn tarddu o'r mater sy'n cyfiawnhau ymchwiliad pellach, byddwn yn agor ymchwiliad. Efallai y byddwn yn lansio ymchwiliadau ar ôl asesu cwynion a wneir i ni gan eraill neu asesiadau a wnawn ar ein liwt ein hunain, er enghraifft, pan fydd achos posibl o dorri amodau yn ymwneud â methu darparu recordiadau neu dalu ffioedd. Mewn achosion 'ar ein liwt ein hunain', efallai na fyddwn yn cynnal asesiad ac yn hytrach yn mynd ati'n syth i agor ymchwiliad.

2.21 Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y cwynion a geir o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol ers iddyn nhw gael eu diweddarau ddiwethaf yn 2017. Mae'r siart isod yn nodi nifer yr asesiadau a agorwyd yn ystod pob blwyddyn ariannol hyd at 2023/24, wedi'u rhannu yn ôl a gawsant eu hagor o ganlyniad i gŵyn neu wedi'u cychwyn gan Ofcom, a nifer yr achosion a gafodd eu cyfeirio ar gyfer ymchwiliad.¹



2.22 Mae nifer y cwynion a gawsom yn 2023/24 dros ddwywaith y nifer a gawsom yn 2017/18. Roedd gostyngiad bach yn nifer y cwynion a gafwyd yn ystod pandemig Covid-19, ond roedd lefelau cwynion o dan y gweithdrefnau hyn yn 2023/24 125% yn uwch nag yn 2020/21. Mae angen rhyw fath o asesiad ar gyfer pob un o'r cwynion hyn er mwyn penderfynu a yw'r achos yn cyfiawnhau cael ei gyfeirio ar gyfer ymchwiliad. Mae patrwm tebyg mewn perthynas ag asesiadau rydym yn eu cynnal o ganlyniad i'n gwaith monitro ein hunain, a gynyddodd yn sylweddol yn 2022/23. Yn 2023/24 roedd nifer yr asesiadau bedair gwaith yn uwch nag yr oedd yn 2017/18.

2.23 Mae'r cynnydd yn yr achosion yr ymdrinnir â nhw o dan y gweithdrefnau hyn, yn ei dro, wedi creu mwy o faich rheoleiddio ar ddarlledwyr o ran darparu recordiadau o gynnwys a

¹ Efallai fod nifer o achosion wedi arwain at un ymchwiliad, felly nid yw nifer yr achosion a gafodd eu cyfeirio ar gyfer ymchwiliad yn cyfateb i nifer yr ymchwiliadau a agorwyd. Nid yw'r siart ychwaith yn adlewyrchu unrhyw ymchwiliadau a gychwynwyd gan Ofcom nad oeddent yn dilyn asesiad (gan gynnwys ymchwiliadau sy'n ymwneud â pheidio â thalu ffioedd a methu cydymffurfio â chais i ddarparu recordiadau).

gwybodaeth i Ofcom yn ystod y broses asesu, a rhoi sylwadau ffurfiol yn ystod y broses ymchwilio.

- 2.24 Mae'r baich rheoleiddio hwn yn effeithio ar ddarlledwyr radio cymunedol yn benodol gan mai gwirfoddolwyr sy'n eu rhedeg yn gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf o'r cwynion a gawn o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol yn ymwneud â thrwyddedau radio cymunedol analog. Hefyd, rydym wedi gweld twf araf yn nifer y cwynion am drwyddedau radio cymunedol digidol ers iddyn nhw gael eu cyflwyno. Ers 2021/22, mae dros draean o'n hasesiadau wedi ymwneud â'r Prif Ymrwymadau. Mae ymchwiliadau i gydymffurfio â'r Prif Ymrwymadau hefyd o leiaf dair gwaith yn uwch yn 2023/24 na'r blynyddoedd rhwng 2017/18 a 2021/22.
- 2.25 O'r achosion rydym yn eu hasesu, rydym wedi parhau i gyfeirio cyfran debyg yn gyffredinol ar gyfer ymchwiliad (o leiaf 12% o'r holl asesiadau ar wahân i 2020/21). Gan fod nifer yr achosion rydym yn eu hasesu wedi cynyddu (o ganlyniad i gwynion a'r gwaith monitro gan Ofcom), rydym yn agor mwy o ymchwiliadau. Er bod nifer yr achosion a gyfeiriwyd ar gyfer ymchwiliad ers 2017/18 wedi amrywio, fe wnaethom gyfeirio dros ddwywaith nifer yr achosion yn 2023/24 nag a wnaethom yn 2017/18. Nid yw'r ffaith bod mwy o ymchwiliadau yn rheswm ynddo'i hun dros newid, ond rydym o'r farn y byddai'n briodol adolygu ein gweithdrefnau a sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau yn y cyd-destun hwn.

3. Newidiadau arfaethedig i'r Gweithdrefnau Cyffredinol

- 3.1 Yn yr adran hon, rydym yn nodi'n fanwl y newidiadau arfaethedig i'r Gweithdrefnau Cyffredinol. Ar gyfer pob cynnig, rydym yn nodi'r canlynol:
- a) y sefyllfa bresennol gan gynnwys sut y gellir dehongli'r geiriad presennol;
 - b) y newid a gynigir i'r gweithdrefnau;
 - c) cyfiawnhad dros y newidiadau arfaethedig; a
 - d) effeithiau tebygol y newid arfaethedig.
- 3.2 Ar gyfer pob cynnig, rydym wedi asesu effaith debygol ein cynigion, gan ystyried ein rhwymedigaethau cyfreithiol yn:
- a) adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf Cyfathrebiadau") sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni gyflawni a chyhoeddi asesiad o'r effaith debygol wrth weithredu cynigion mewn rhai amgylchiadau;
 - b) adran 8 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gyhoeddi datganiad sy'n nodi'r safonau prydlondeb y mae Ofcom yn cynnig eu diwallu ac i roi sylw iddo wrth gyflawni ei ddyletswyddau;
 - c) adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried yr effeithiau posib o ran cydraddoldeb ar y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig;
 - d) adran 3(4) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl; a
 - e) Mesur y Gymraeg 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried effaith ein cynigion ar y Gymraeg.
- 3.3 Rydym yn trwyddedu darlledwyr sy'n diwallu amrywiaeth o nodweddion gwarchoddedig a grwpiau penodol eraill o bobl. Yn benodol, rydym o'r farn bod y grwpiau isod yn cael eu diwallu gan ddarlledwyr rydym yn eu trwyddedu:
- a) pobl o wahanol oedrannau, a phobl agored i niwed, gan gynnwys plant;
 - b) pobl ag anabledd;
 - c) pobl o wahanol hiliau a grwpiau ethnig;
 - d) pobl sydd â chrefydd neu gred;
 - e) pobl sy'n ystyried eu hunain yn Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol(LHDT)+;
 - f) pobl o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol; a
 - g) pobl mewn gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau, a phobl mewn ardaloedd trefol a gwledig.
- 3.4 Mae ein rhwymedigaethau cyfreithiol yn ymwneud ag asesiadau effaith yn cael eu nodi'n llawnach yn Atodiad 1 yn ogystal â chrynodeb o'n hasesiad effaith.

Cynnig 1: Blaenoriaethau gweinyddol

Safbwynt presennol

- 3.5 Mae'r gweithdrefnau cyfredol yn nodi: "Wrth benderfynu a ddylid agor ymchwiliad, yn y lle cyntaf bydd Ofcom yn ystyried, ar y wyneb, a oes materion a allai fod yn sylweddol mewn perthynas â gofyniad perthnasol sy'n cyfiawnhau ymchwiliad gan Ofcom. Bydd yn gwneud hynny drwy gyfeirio at ddifrifoldeb a/neu hyd a lled y mater dan sylw."
- 3.6 Mae hwn yn nodi sut rydym yn ystyried ein blaenoriaethau gweinyddol wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gydymffurfedd darlledwr.
- 3.7 Mae'r geiriad presennol yn gyffredinol ac efallai na fydd yn galluogi darlledwyr na'r sawl sy'n cwyno i ddeall yn llawn sut rydym yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau gweinyddol.

Y newid a gynigir i'r gweithdrefnau

- 3.8 Rydym yn cynnig cyhoeddi fframwaith newydd a manylach ar gyfer blaenoriaethau gweinyddol i roi mwy o dryloywder ac eglurder ynghylch sut rydym yn cynnal asesiad cychwynnol o gwynion a sut rydym yn ystyried y blaenoriaethau hyn yn ein gwaith gorfodi. Dylai hyn helpu darlledwyr a'r sawl sy'n cwyno i ddeall y math o achosion lle rydym yn credu mai dyma'r ffordd orau o ddefnyddio ein hadnoddau a'n bod yn debygol o'u targedu.
- 3.9 Rydym yn cynnig nodi tri phrif ffactor o ran blaenoriaethau gweinyddol y byddwn yn eu hystyried yn gyffredinol wrth benderfynu a ddylid parhau y tu hwnt i asesiad cychwynnol ac, os yw'n berthnasol, lansio ymchwiliad i gydymffurfedd darlledwr â gofynion perthnasol. Rydym o'r farn y bydd hyn yn rhoi rhagor o dryloywder ac eglurder ynghylch y ffactorau rydym yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid lansio ymchwiliad ai peidio.
- 3.10 Dyma'r tri ffactor:
- a) Y risg o niwed neu ddifrifoldeb yr ymddygiad honedig. Er enghraifft:
- y risg i fuddiannau dinasyddion neu ddefnyddwyr, er enghraifft, cynulleidfaoedd ac, mewn rhai achosion, gwirfoddolwyr a'r gymuned darged, sy'n deillio o'r achos/achosion honedig o dorri amodau (gan gynnwys: a yw'r risg honno ar unwaith ai peidio ac a yw'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol); a'r budd uniongyrchol ac anuniongyrchol i ddinasyddion a defnyddwyr wrth i ni gymryd camau (er enghraifft, i atal ymddygiad tebyg gan eraill);
 - a yw'r ymddygiad yn digwydd drwy'r amser;
 - a yw'r honiad yn ymwneud ag ymddygiad sy'n ymddangos fel petai'n achos o dorri amodau yn fwriadol, dro ar ôl tro, a/neu mewn modd di-hid²;
 - a oes gan y darlledwr dan sylw hanes o dorri'r un amod trwydded, neu hanes amlwg o gydymffurfio gwael yn fwy cyffredinol. Efallai y byddwn hefyd yn ystyried penderfyniadau blaenorol a wnaed o dan ein fframwaith blaenoriaethau gweinyddol lle gwnaethom benderfynu peidio â lansio ymchwiliad; a

² Er enghraifft, byddem yn ystyried a oes tystiolaeth bod yr achos honedig o dorri amodau wedi digwydd o ganlyniad i faterion sydd y tu hwnt i reolaeth y darlledwr neu a yw'r darlledwr wedi rhoi gwybod i ni am fater cyn bod unrhyw gŵyn yn cael ei gwneud.

- v) y risg y gallai'r ymddygiad leihau ymddiriedaeth dinasyddion a defnyddwyr yn y drefn reoleiddio gryn dipyn.
- b) Effaith debygol mynd i'r afael â'r ymddygiad honedig ac a yw camau gweithredu amgen yn debygol o gyflawni'r un dibenion. Er enghraifft:
- i) a fyddai ymchwiliad yn helpu i egluro'r fframwaith rheoleiddio neu gyfreithiol i randdeiliaid;
 - ii) maint unrhyw effaith ar grwpiau cydraddoldeb gan gynnwys sut y gallai ymchwiliad helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal i gynulleidfaeod, gwirfoddolwyr a'r gymuned darged lle bo hynny'n berthnasol;
 - iii) a yw'r mater yn ymwneud yn uniongyrchol â blaenoriaethau neu nodau strategol ehangach Ofcom (gan gynnwys y rheini yng Nghynllun Gwaith Blynyddol Ofcom); a/neu
 - iv) a oes camau amgen eraill sy'n debygol o gyflawni'r un dibenion neu ddelio â'r un materion yn yr un modd â pharhau â'r asesiad ac, os yw'n berthnasol, cynnal ymchwiliad.
- c) Y goblygiadau o ran adnoddau wrth barhau â'r asesiad ac, os yw'n berthnasol, cynnal ymchwiliad. Er enghraifft, pa adnoddau (yn enwedig adnoddau arbenigol) sydd eu hangen, wrth ystyried yr angen i wasanaethu buddiannau'r holl bartïon y mae hyn yn debygol o effeithio arny nhw.

- 3.11 Lle y bo'n briodol, byddwn yn ystyried unrhyw ffactorau ychwanegol perthnasol.
- 3.12 Byddwn yn ystyried ein blaenoriaethau gweinyddol drwy gydol y broses asesu ac ymchwilio ac efallai y byddwn yn penderfynu yn ddiweddarach i beidio â mynd ar drywydd achos ar sail y ffactorau uchod.
- 3.13 Bydd y blaenoriaethau gweinyddol uchod hefyd yn cael eu hystyried wrth lansio asesiad ar ein liwt ein hunain.

Y cyfiawnhad dros y newidiadau arfaethedig

- 3.14 Mae'n rhaid i Ofcom wneud y defnydd gorau o'i adnoddau. Rydym yn gwneud hyn drwy bwysu a mesur y manteision tebygol o barhau y tu hwnt i asesiad cychwynnol ac, os yw'n berthnasol, lansio ymchwiliad a manteision cymharol defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd arall. Mewn geiriau eraill, rydym yn penderfynu a fyddai parhau ag asesiad ac, os yw'n berthnasol, lansio ymchwiliad yn gyson â'n blaenoriaethau gweinyddol. Mae hefyd yn bwysig, ac yn gyson â'n dyletswyddau statudol cyffredinol, ein bod yn gweithredu:
- a) mewn ffordd effeithlon ac effeithiol;
 - b) mewn ffordd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw; ac
 - c) sy'n targedu achosion lle mae angen gweithredu yn unig.
- 3.15 Mae nifer yr asesiadau a'r ymchwiliadau sy'n cael eu cynnal o dan ein Gweithdrefnau Cyffredinol wedi cynyddu a bydd y math o gwynion am orsafoedd radio cymunedol yn benodol yn newid i gwynion mwy cyffredinol ac ansoddol ar ôl dileu gofynion seiliedig ar gwotâu ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol analog. Felly, rydym am sicrhau ein bod yn gallu parhau i gyfeirio ein hadnoddau at yr achosion lle rydym yn credu bod gorfodi'r gofynion perthnasol yn fwyaf tebygol o arwain at ganlyniadau da i gynulleidfaeod ac, yn ogystal, mewn rhai achosion, i wirfoddolwyr ac i'r gymuned darged. Rydym hefyd yn cydnabod bod y cynnydd yn nifer yr achosion yr ymdrinnir â nhw o dan y Gweithdrefnau

Cyffredinol wedi creu mwy o faich rheoleiddio ar ddarlledwyr o ran darparu gwybodaeth a recordiadau yn ystod y broses asesu a sylwadau yn ystod y broses ymchwilio.

- 3.16 Pan fydd achos yn ymwneud â mater nad yw'n flaenoriaeth weinyddol i Ofcom, mae manteision ymchwiliad yn debygol o fod yn gyfyngedig. Mae hyn yn debygol iawn o ddigwydd pan fo darlledwr yn cydymffurfio, fel arall, â'r gofynion perthnasol yn ei drwydded ac yn darparu gwerth i'w gynulleidfa. Yn yr achos hwn, gall asesu cwyn, ac unrhyw ymchwiliad dilynol, ddefnyddio cryn adnoddau gan Ofcom a'r darlledwr ac arwain at fanteision cyfyngedig i'r gynulleidfa, ac mewn rhai achosion, i'r gwirfoddolwyr a'r gymuned darged.
- 3.17 Bydd ein cynnig i nodi'r tri phrif ffactor o ran blaenoriaethau gweinyddol y byddwn yn eu hystyried, yn sicrhau ein bod yn blaenoriaethu achosion sy'n ymwneud â'r risg fwyaf o niwed i gynulleidfaoedd. Bydd hefyd yn rhoi mwy o eglurder a thryloywder i'r sawl sy'n cwyno a darlledwyr o ran ein penderfyniadau sy'n ymwneud â'r materion hyn a bydd yn helpu i sicrhau bod cysondeb yn ein proses gwneud penderfyniadau.
- 3.18 Fel y nodir yn Adran 2 uchod, mae'r rhan fwyaf o gwynion a gawn yn ymwneud â Phrif Ymrwymadau gwasanaethau radio cymunedol. Mae cwynion gan amlaf yn ymwneud â gorsaf nad yw'n cydymffurfio â'i Phrif Ymrwymadau sy'n golygu nad yw'r allbwn darlledu yn gwasanaethu'r gymuned darged a/neu nid yw aelodau o'r gymuned yn gallu cyfrannu at y broses o reoli a gweithredu'r gwasanaeth. Wrth egluro ein blaenoriaethau gweinyddol, byddwn yn gallu blaenoriaethu'r achosion hynny'n haws lle rydym o'r farn nad yw cymuned yn cael ei gwasanaethu neu lle nad yw aelodau cymuned darged, a allai fod yn grŵp gwarchoddedig, yn gallu cymryd rhan yn y gwasanaeth (gydag effeithiau andwyol posibl o ran cyfle cyfartal i'r gymuned honno). Rydym o'r farn bod y rhain yn faterion pwysig lle byddai cymryd camau yn fuddiol i'r grwpiau hynny wrth gymell y darlledwr i gydymffurfio eto.
- 3.19 Rydym yn credu y bydd cyflwyno'r fframwaith hwn yn arbennig o ddefnyddiol pan fo angen i ni ddefnyddio ein barn reoleiddiol i wneud penderfyniadau ansoddol ar sail ein hasesiad o'r dystiolaeth, yn hytrach na'i seilio ar ffeithiau y gellir eu mesur, yn enwedig gan ei bod yn bosibl y gallai nifer y penderfyniadau ansoddol y mae angen i ni eu gwneud gynyddu wrth ddileu gofynion seiliedig ar gwotâu ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol analog.
- 3.20 O fewn y fframwaith blaenoriaethau gweinyddol, rydym yn cynnig ystyried a oes gan ddarlledwr "hanes amlwg o gydymffurfio gwael." Yr hyn a olygwn yma yw achosion blaenorol o dorri gofyniad perthnasol neu gydymffurfio gwael yn gyffredinol. Efallai y byddwn hefyd yn ystyried penderfyniadau blaenorol a wnaed o dan ein fframwaith blaenoriaethau gweinyddol pan wnaethom benderfynu peidio â lansio ymchwiliad, gan gofio efallai na fyddai darlledwyr wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau ynghylch eu cydymffurfedd pan wnaethom benderfynu peidio â lansio ymchwiliad. Er bod rhai darlledwyr o'r farn bod nifer fawr o gwynion wedi effeithio ar eu hanes o gydymffurfio, mae ein penderfyniadau'n seiliedig ar ein hasesiadau o achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio yn hytrach na nifer y cwynion a gafwyd ac felly rydym o'r farn y dylai hanes o gydymffurfio barhau i fod yn rhan o'r blaenoriaethau gweinyddol rydym yn eu hystyried.

Effeithiau tebygol y newid arfaethedig

- 3.21 Rydym yn disgwyl i'r newid hwn gael effaith gadarnhaol yn gyffredinol.
- 3.22 Fel yr esboniwyd uchod, mae ein hasesiad presennol ynghylch a ddylid cyfeirio achos ar gyfer ymchwiliad yn cynnwys ystyried a oes materion a allai fod yn sylweddol sy'n

cyfiawnhau ymchwiliad, gan ystyried difrifoldeb a/neu hyd a lled y mater. Mae ein cynnig yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn gallu parhau i gyfeirio ein hadnoddau at achosion sy'n peri'r risg fwyaf o niwed i gynulleidfaoedd ac mewn rhai achosion, i'r gwirfoddolwyr a'r gymuned darged. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar y grwpiau dinasyddion/defnyddwyr hynny.

- 3.23 Rydym yn disgwyl y bydd y newidiadau arfaethedig yn ein galluogi i ddefnyddio ein disgresiwn i raddau mwy helaeth ac yn ein galluogi i ddibynnu'n fwy effeithiol ac yn fwy tryloyw ar y ffactorau uchod wrth benderfynu a ddylid lansio ymchwiliad ai peidio. Bydd y newid hwn hefyd yn egluro ymhellach na fyddwn yn lansio ymchwiliad i bob achos posibl o dorri amodau. Byddai achosion nad ydynt yn cael eu cyfeirio ar gyfer ymchwiliad yn rhai lle mae manteision ymchwiliad, ac unrhyw niwed i ddefnyddwyr, yn fwy cyfyngedig.
- 3.24 Bwriad ein cynnig hefyd yw bod ein penderfyniadau, sy'n ymwneud â'n hasesiad a'n hymchwiliad i achosion, yn eglur ac yn dryloyw. Mae hyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y sawl sy'n cwyno a darlledwyr. Gallai ein cynnig arwain hefyd at rhai achosion ddim yn cael eu hystyried yn gynharach, a gallai hyn leihau'r baich ar ddarlledwyr o ran rhoi gwybodaeth ychwanegol i ni a chydweithredu â'n prosesau asesu ac ymchwilio. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol ychwanegol ar ddarlledwyr. Bydd ein cynnig hefyd yn helpu i sicrhau cysondeb yn ein proses gwneud penderfyniadau.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r hyn a gynigiwn ar gyfer fframwaith blaenoriaethau gweinyddol? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cynnig 2: Rhannu gwybodaeth am gwynion â'r darlledwr

Safbwynt presennol

- 3.25 Mae'r gweithdrefnau presennol yn datgan y:
- bydd Ofcom yn rhannu fersiwn nad yw'n gyfrinachol o'r gŵyn â'r darlledwr, a
 - gellir datgelu pwy yw'r sawl sy'n cwyno i'r darlledwr oni bai fod Ofcom wedi cael cais i beidio â gwneud hynny.
- 3.26 Dylid nodi bod gan Ofcom [broses ar wahân ar gyfer delio â chwynion gan chwythwr chwiban](#) (hynny yw, unigolyn sydd â phryderon am fathau penodol o gamwedd, risg neu gamymarfer a gyflawnir gan ei gyflogwr). Nid yw'r newidiadau rydym yn eu cynnig yn effeithio ar gwynion gan chwythwyr chwiban.
- 3.27 Yn y gorffennol, mae darlledwyr wedi dehongli'r elfen hon o'r gweithdrefnau fel un sy'n darparu union eiriad y gŵyn ynghyd ag enw'r sawl sy'n cwyno. Felly, mae darlledwyr wedi gofyn am yr wybodaeth hon gennym ni ar ôl cael cais am recordiadau a/neu wybodaeth gan Ofcom sy'n ymwneud â chŵyn. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, rydym yn darparu crynodeb o'r gŵyn i'r darlledwr sy'n tynnu sylw at y gofynion perthnasol rydym yn eu hasesu.
- 3.28 Yn ymarferol, mae'r amgylchiadau lle gallwn ddatgelu pwy yw'r sawl sy'n cwyno neu union eiriad cwyn i'r darlledwr pan fydd y sawl sy'n cwyno wedi gofyn i ni beidio â gwneud hynny,

yn debygol o fod yn brin.³ Yn y rhan fwyaf o achosion, nid ydym yn credu ei bod yn angenrheidiol i'r darlledwr gael gwybod beth yw union eiriad y gŵyn na gwybod pwy yw'r sawl sy'n cwyno.

Y newid a gynigir i'r gweithdrefnau

- 3.29 Rydym yn cynnig egluro y bydd Ofcom, yn gyffredinol:
- a) yn rhannu crynodeb yn unig o'r materion a godwyd gyda'r darlledwr; a
 - b) ddim yn rhannu enw'r sawl sy'n cwyno.
- 3.30 Rydym yn cydnabod, hyd yn oed pan na fyddwn yn datgelu enw'r sawl sy'n cwyno, y gallai datgelu union eiriad y gŵyn ddatgelu i'r darlledwr pwy yw'r sawl sy'n cwyno os yw'r gŵyn, er enghraifft, yn cynnwys cyfeiriadau at eu rhyw neu eu hoedran. Rydym yn bwriadu ystyried hyn wrth benderfynu pa wybodaeth i'w chynnwys yn y crynodeb o'r materion a godwyd.
- 3.31 Fodd bynnag, efallai y bydd rhai amgylchiadau lle rydym o'r farn bod angen rhannu union eiriad y gŵyn neu enw'r sawl sy'n cwyno. Rydym yn disgwyl mai prin fydd yr amgylchiadau hyn, ond gallent gynnwys amgylchiadau lle rydym yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cael mynediad at union eiriad cwyn neu enw'r sawl sy'n cwyno er mwyn:
- a) i'r darlledwr arfer ei hawl i amddiffyn yn briodol (gan gynnwys deall yn llawn natur y gŵyn a'r cyd-destun perthnasol sy'n angenrheidiol, yn ein barn ni, er mwyn rhoi unrhyw wybodaeth neu sylwadau perthnasol i ni); neu
 - b) i Ofcom asesu cwyn yn briodol a chyflawni ein swyddogaethau.
- 3.32 Mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd pan fydd cwyn yn ymwneud â ffordd mae unigolyn wedi cael ei drin. Efallai y bydd y gyfraith hefyd yn mynnu ein bod yn rhannu union eiriad cwyn neu enw'r sawl sy'n cwyno, er enghraifft, lle bo hynny'n ofynnol gan Lys neu Dribiwnlys mewn perthynas ag achos sifil neu droseddol.
- 3.33 Yn yr amgylchiadau prin lle rydym o'r farn bod angen datgelu union eiriad cwyn neu enw'r sawl sy'n cwyno, byddwn yn penderfynu pa wybodaeth sy'n angenrheidiol i'w datgelu yn ein barn ni, a byddwn yn ystyried yn ofalus yr angen i ddatgelu yn erbyn unrhyw bryderon neu wrthwynebiadau sydd gan y sawl sy'n cwyno. Os byddwn o'r farn bod angen datgelu gwybodaeth y mae'r sawl sy'n cwyno yn ei hystyried yn gyfrinachol, gan gynnwys ei enw, byddwn yn egluro i'r sawl sy'n cwyno yn gyntaf ein bwriad i ddatgelu'r wybodaeth hon a cheisio cydsyniad y sawl sy'n cwyno a/neu unrhyw wrthwynebiadau sydd ganddo i'n cyfiawnhad dros ddatgelu'r wybodaeth. Os nad yw'r wybodaeth yn gyfrinachol, ni fyddwn yn gofyn am ganiatâd i'w rhannu.
- 3.34 Mewn achosion lle ceir anghytundeb ynghylch a ddylid datgelu'r wybodaeth, byddwn fel arfer yn ceisio datrys y mater gyda'r sawl sy'n cwyno er mwyn cytuno ar yr hyn y gellir ei ddatgelu. Fodd bynnag, os bydd y sawl sy'n cwyno yn parhau i wrthwynebu, ni fyddai'r gŵyn (neu ran berthnasol o'r gŵyn) fel arfer yn rhan o unrhyw asesiad neu ymchwiliad ac eithrio mewn achosion prin lle mae angen i ni rannu'r wybodaeth i gyflawni ein swyddogaethau'n briodol.

³ Rydym hefyd yn nodi, pan fo cwyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â busnes, fod adran 393 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn gwahardd Ofcom rhag datgelu'r wybodaeth honno heb ganiatâd y sawl sy'n rhedeg y busnes hwnnw, oni bai fod hyn yn cael ei ganiatáu ar gyfer un o'r dibenion a nodir yn adran 393(2), gan gynnwys pan fyddwn yn ystyried bod angen datgelu er mwyn hwyluso'r gwaith o arfer ein swyddogaethau perthnasol.

Y cyfiawnhad dros y newidiadau arfaethedig

- 3.35 Rydym yn defnyddio cwynion i'n helpu i benderfynu pa ofynion perthnasol y dylem eu hystyried mewn achos penodol. Ni fydd unrhyw elfennau o gŵyn nad ydynt yn ymwneud â'r gofynion perthnasol yn rhan o unrhyw asesiad. Mae hyn yn golygu efallai na fydd rhannau o gŵyn yn berthnasol. Fel yr esboniwyd uchod, anaml iawn y bydd gwybod pwy yw'r sawl sy'n cwyno yn berthnasol i unrhyw asesiad.
- 3.36 Fel arfer, mae ein hasesiad yn seiliedig ar recordiadau a/neu wybodaeth a ddarperir gan y darlledwr, felly anaml y byddwn yn ystyried bod angen rhannu union eiriad y gŵyn neu enw'r sawl sy'n cwyno. Efallai y bydd rhai amgylchiadau cyfyngedig lle rydym yn credu bod hyn yn angenrheidiol er mwyn galluogi'r darlledwr i arfer ei hawliau amddiffyn yn briodol. Fodd bynnag, byddai'r rhain yn brin.
- 3.37 Bwriad ein cynnig yw egluro ein safbwynt am rannu union eiriad y gŵyn ac enw'r sawl sy'n cwyno. Y bwriad hefyd yw dileu unrhyw awgrym bod yr wybodaeth hon yn rhan allweddol o'n hasesiad a gosod disgwyliadau clir ar gyfer y sawl sy'n cwyno a darlledwyr.
- 3.38 Nid yw materion sy'n ymwneud â hygrededd a chymhellion y sawl sy'n cwyno yn berthnasol i'n hasesiad ynghylch a yw darlledwr wedi cydymffurfio â gofyniad/gofynion perthnasol, yn enwedig pan fo mater y gŵyn yn ffaith y gellir ei fesur. Fel sy'n cael ei egluro uchod, mae ein hasesiad yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan y darlledwr.
- 3.39 Rydym yn deall y gallai rhai darlledwyr bryderu y byddai'r cynnig hwn yn arwain at gynnydd mewn cwynion blinderus gan bobl sy'n cwyno sy'n dymuno cuddio y tu ôl i'w henw. Fel y nodir uchod, nid yw gwybod pwy yw'r sawl sy'n cwyno yn ffactor rydym yn ei ystyried wrth benderfynu a ddylid agor ymchwiliad yn dilyn ein hasesiad. Yr eithriad i hyn yw pan fyddwn wedi penderfynu rheoli cyswllt ag unigolyn/rhanddeiliaid yn unol â'n [Polisi Cyswllt Allanol](#), er enghraifft pan fyddwn o'r farn bod cwynion blinderus yn cael eu cyflwyno'n gyson, ac os bydd hynny'n digwydd, efallai y byddwn yn ystyried pwy ydyn nhw yn unol â phenderfyniad o dan y polisi hwnnw.
- 3.40 Mae rhai darlledwyr wedi awgrymu yn y gorffennol y dylem weithredu proses gwyno darlledwr-yn-gyntaf, lle mae'n rhaid i gwynion gael eu hystyried gan y darlledwr cyn i'r sawl sy'n cwyno allu cysylltu ag Ofcom. Ar hyn o bryd, rydym yn trwyddedu tua 2,000 o wasanaethau darlledu sy'n amrywio o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol mawr i wasanaethau radio cymunedol sy'n cael eu harwain gan wirfoddolwyr. Nid ydym yn credu y byddai cyflwyno dull gweithredu darlledwr-yn-gyntaf yn ein galluogi i gyflawni'r dyletswyddau hyn orau ar draws y sector darlledu nac y byddai o fudd i ddarlledwyr neu gynulleidfaoedd ac, hefyd, mewn rhai achosion, y gwirfoddolwyr a'r cymunedau targed maen nhw'n eu gwasanaethu. Rydym wedi ystyried y ffactorau canlynol:
- a) **Effaith ar y sawl sy'n cwyno:** Mae'r rhan fwyaf o'r cwynion a gawn o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol yn ymwneud â darlledwyr radio cymunedol lle mae'r sawl sy'n cwyno yn debygol o fod yn aelod o'r gymuned leol neu'n wirfoddolwr presennol neu flaenorol mewn gorsaf radio cymunedol. Gellir hefyd cyflwyno cwynion o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol ynghylch a yw unrhyw fath o ddarlledwr yn gymwys a phriodol i ddal trwydded ddarlledu. Mae'n rhesymol y gallai'r mathau hyn o bobl sy'n cwyno fod yn bryderus y gallai cwyno wrth y darlledwr arwain at ryw fath o anfantais iddyn nhw ac felly, o dan broses gwyno darlledwr-yn-gyntaf, ni fyddai unigolion o'r fath yn gallu cwyno wrth Ofcom am yr ymddygiad mwyaf niweidiol gan ddarlledwyr.

- b) **Baich ar drwyddedeion:** Rydym yn mynnu bod gan ddarlledwyr brosesau cydymffurfio ar waith a'u bod yn gallu delio â chwynion am safonau cynnwys a thegwch, a byddem yn disgwyl i ddarlledwyr cyfrifol wneud yr un fath mewn perthynas â'r gofynion perthnasol sy'n dod o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol. Fodd bynnag, nid oes gofyniad penodol mewn trwyddedau i ddarlledwyr ddelio â chwynion am ofynion perthnasol a'u datrys na chadw cofnodion o'r cwynion hyn ac unrhyw ymatebion. Rydym o'r farn y byddai gosod gofyniad o'r fath yn cynyddu'r baich rheoleiddio ar ddarlledwyr yn ddiangen, yn enwedig y rhai llai a/neu'r rheini syn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr. Mae mynnu bod darlledwyr yn delio â chwynion a fyddai wedi cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i Ofcom yn y gorffennol yn gallu cynyddu nifer y cwynion y mae'n rhaid i ddarlledwr ddelio â nhw, a thynnu eu sylw oddi wrth gydymffurfio â gofynion rheoleiddio eraill, yn enwedig ar gyfer darlledwyr llai.⁴
- c) **Cadw recordiadau:** Mae Ofcom wedi gosod cyfyngiadau amser i ddarlledwyr gadw recordiadau o'u hallbwn, sy'n golygu y byddai angen i Ofcom gael unrhyw gŵyn sy'n ymwneud â chynnwys sydd wedi'i ddarlledu cyn diwedd y cyfnod cadw hwnnw. Gallem fynnu bod darlledwyr yn cadw copiâu o recordiadau ar ôl derbyn unrhyw gŵyn a wneir iddyn nhw'n uniongyrchol, ond rydym o'r farn y byddai hyn yn golygu costau ychwanegol i ddarlledwyr i gadw a storio mwy o gynnwys am gyfnod hirach. Ni fyddai'n gwarantu y byddai darlledwyr yn cadw'r un cynnwys ag y byddai Ofcom yn gofyn amdano. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â'r Gweithdrefnau Cyffredinol oherwydd ein bod yn asesu wythnos o gynnwys yn hytrach na dim ond mynnu bod rhaglen neu gyfres benodol o raglenni'n cael ei chadw, a gall cwynion weithiau ymwneud â chyfnod hirach.

3.41 Rydym felly o'r farn mai galluogi cyflwyno cwynion yn uniongyrchol i Ofcom yn ogystal â'r darlledwr yw'r ffordd fwyaf effeithiol a chymesur o sicrhau bod darlledwyr yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol yn eu trwyddedau.

Effeithiau tebygol y newid arfaethedig

- 3.42 Rydym yn disgwyl i'r newid hwn gael effaith gadarnhaol o ran egluro ein harferion presennol.
- 3.43 Rydym yn nodi y gallai ein cynnig i beidio â darparu testun llawn y gŵyn neu fanylion y sawl sy'n cwyno annog y rheini sy'n cwyno sy'n agored i niwed sydd ag un neu ragor o nodweddion gwarchoddedig i gwyno wrth Ofcom. Y rheswm am hyn yw y dylai fod yn glir iddyn nhw y byddwn yn gofyn am eu caniatâd cyn datgelu pwy ydyn nhw i'r darlledwr a'u bod felly yn gallu bod yn agored wrth gwyno am yr ymddygiad mwyaf niweidiol gan ddarlledwr. Os byddan nhw'n gwneud hynny, efallai y bydd y darlledwr yn cael ei gymell i gydymffurfio neu'n gorfod sicrhau hynny. Pan fo'r ymddygiad hwn yn ymwneud ag arferion sydd wedi eithrio unigolion rhag cymryd rhan mewn gwasanaeth, gallai'r sicrwydd hwn i'r sawl sy'n cwyno ei gwneud yn haws iddyn nhw gymryd rhan.
- 3.44 Mae risg y byddwn yn cael mwy o gwynion blinderus os yw'r sawl sy'n cwyno yn gwybod na fydd eu henw'n cael ei rannu â'r darlledwr heb eu caniatâd. Fodd bynnag, mae hyn yn risg sydd eisoes yn bodoli o dan ein gweithdrefnau presennol. Fel y nodwyd uchod, gallwn hefyd reoli cyswllt ag unigolyn/rhanddeiliaid o dan ein [Polisi Cyswllt Allanol](#).

⁴ Dylid nodi bod trwydded darlledwyr radio cymunedol yn mynnu eu bod yn atebol i'w cymuned darged a fyddai'n cynnwys delio â chwynion ac adborth gan y gymuned darged.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i rannu crynodeb o'r materion a godwyd gyda'r darlledwr yn hytrach na thestun llawn y gŵyn ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i beidio â rhannu enw'r sawl sy'n cwyno â'r darlledwr, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cynnig 3: Cyfathrebu â'r sawl sy'n cwyno

Safbwynt presennol

- 3.45 Mae'r gweithdrefnau presennol yn datgan, yn dilyn yr asesiad o'r gŵyn, y bydd Ofcom yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n cwyno am y penderfyniad, boed hynny i agor ymchwiliad neu i beidio ag ymchwilio ymhellach.
- 3.46 Ar hyn o bryd, wrth ymateb i gwynion, nid ydym fel arfer yn rhoi rhagor o fanylion i'r sawl sy'n cwyno am y canlyniad nag y byddai'n ei weld yn y [Bwletin Broadcast and On Demand](#) (y "Bwletin"), heblaw ein bod wedi gofyn am wybodaeth lle bo hynny'n berthnasol.
- 3.47 Mewn rhai achosion, efallai na fydd y rhan fwyaf o gŵyn yn berthnasol i asesiad Ofcom o gydymffurfedd y darlledwr â'r gofyniad/gofynion perthnasol, er enghraifft, efallai y bydd yn codi materion sydd y tu allan i gylch gwaith Ofcom neu ddarparu manylion am ymddygiad y darlledwr nad ydynt yn ymwneud â'r gofynion perthnasol (fel sylwadau am amserlennu cynnwys). Nid yw gohebu â'r sawl sy'n cwyno ar holl elfennau eu cwyn yn cyd-fynd â ffocws Ofcom ar asesu cydymffurfedd â gofynion perthnasol.

Y newid a gynigir i'r gweithdrefnau

- 3.48 Rydym yn cynnig dileu'r elfen hon o'r gweithdrefnau a pheidio â rhoi gwybod i'r sawl sy'n cwyno am ganlyniad eu cwyn, gan fod canlyniadau cwynion ar gael ar-lein yn ein Bwletin.
- 3.49 Rydym hefyd yn cynnig diwygio ein hymateb e-bost awtomatig i'r sawl sy'n cwyno sydd wedi cyflwyno eu cwyn ar ein ffurflen ar-lein i roi gwybod iddyn nhw am hyn ac egluro sut mae dod o hyd i ganlyniad eu cwyn.
- 3.50 Pan fo cwynion yn cael eu gwneud dros y ffôn, drwy wasanaeth cyfnewid testun (ar gyfer y sawl sy'n cwyno sy'n fyddar neu â nam ar eu llferydd) neu drwy wasanaeth cyfnewid fideo (ar gyfer cwynion a wneir yn laith Arwyddion Prydain), byddwn yn ystyried sut gallwn ni ddyblygu'r wybodaeth hon, er enghraifft, gofyn i'r rheini sy'n delio â galwadau ei darparu ar lafar, neu anfon e-bost awtomatig pan fo'r sawl sy'n cwyno wedi darparu cyfeiriad e-bost.
- 3.51 Byddwn yn egluro yn y gweithdrefnau mewn achosion pan na fydd y sawl sy'n cwyno yn gallu cael mynediad at y rhyngwyd, eu bod yn gallu cysylltu ag Ofcom drwy amrywiaeth o ddulliau i ofyn am ganlyniad eu cwyn. Byddwn hefyd yn egluro yn y gweithdrefnau bod y sawl sy'n cwyno sydd angen cael y Bwletin mewn fformat gwahanol yn gallu cysylltu ag Ofcom drwy'r un ffyrdd, drwy [gysylltu â'n Tîm Digidol gan ddefnyddio ffurflen ar-lein](#), neu drwy anfon e-bost at accessibilityrequests@ofcom.org.uk.
- 3.52 Mewn achosion prin, nid ydym yn cyhoeddi canlyniad cwyn yn y Bwletin oherwydd ein bod o'r farn y byddai'n amhriodol rhoi cyhoeddusrwydd i'r mater sy'n destun cwyn, er enghraifft oherwydd bod y materion a godwyd yn arbennig o sensitif a/neu y gallai cyhoeddusrwydd

gael effaith niweidiol ar drydydd partïon. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn rhoi gwybod am y canlyniad yn uniongyrchol i'r sawl sy'n cwyno.

Y cyfiawnhad dros y newidiadau arfaethedig

- 3.53 Rydym yn cynnig y newid hwn i sicrhau ein bod yn parhau i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ac oherwydd bod ffyrdd eraill eisoes ar gael i'r sawl sy'n cwyno ganfod canlyniad eu cwyn.
- 3.54 Fel yr eglurwyd yn Adran 2 uchod, roedd nifer y cwynion a gawsom yn 2023/24 dros ddwywaith y nifer a dderbyniwyd yn 2017/18. Rydym yn croesawu cwynion am ddarllledwyr a'r wybodaeth werthfawr y mae'r sawl sy'n cwyno yn ei rhoi ynghylch achosion posibl o dorri gofynion perthnasol. Fodd bynnag, mae rhoi gwybod i fwy o bobl sy'n cwyno am ganlyniad eu cwyn, a'r gohebu cysylltiedig â'r bobl hynny, yn defnyddio mwy a mwy o adnoddau.
- 3.55 Yn fwy cyffredinol, nid ydym yn ystyried cwynion er mwyn penderfynu ar gwynion a hawliau unigolion sy'n cwyno, ac rydym o'r farn nad oes gan y sawl sy'n cwyno rôl bellach o dan y gweithdrefnau hyn ar ôl gwneud eu cwyn, oni bai fod angen rhagor o wybodaeth ganddyn nhw.
- 3.56 Rydym hefyd yn credu ei bod hi'n hawdd i'r sawl sy'n cwyno ganfod canlyniad eu cwyn ar ein gwefan, ac rydym wedi gwneud hyn yn haws ers i ni ddiweddarar y gweithdrefnau hyn ddiwethaf yn 2017. Yn benodol, rydym yn cyhoeddi canlyniad ein hasesiadau a'n hymchwiliadau o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol yn y Bwletin. Yn 2020, fe wnaethom gyflwyno fformat Bwletin sydd wedi ei gwneud yn haws i'r sawl sy'n cwyno ddod o hyd i ganlyniad eu cwyn. Mae'r Bwletin yn cynnwys nodweddion i chwilio am: achosion rydym wedi'u hasesu a heb fynd ar eu trywydd ymhellach; achosion lle rydym wedi lansio ymchwiliad; a chanlyniad ymchwiliadau.
- 3.57 Yn y cyd-destun hwn, credwn fod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio'n well wrth asesu cwynion a bwrw ymlaen â'r rhai sy'n cyfiawnhau ymchwiliad yn hytrach nag ymateb i unigolion sy'n cwyno.
- 3.58 Ein ffurflen gwyno ar-lein yw'r ffordd fwyaf poblogaidd o gwyno am ofynion perthnasol, gyda 221 o gwynion allan o 248 yn cael eu gwneud drwy'r dull hwn yn 2023/24. Felly, gyda'n cynnig i ddiwygio ein hymateb e-bost awtomatig i'r rheini sy'n cwyno er mwyn rhoi gwybod iddyn nhw na fyddwn yn cysylltu â nhw'n uniongyrchol ynghylch eu cwyn ac egluro sut i ddod o hyd i ganlyniad eu cwyn, dylai hyn gynyddu'r tebygolrwydd y bydd y sawl sy'n cwyno yn gallu dod o hyd i ganlyniad eu cwyn heb gael gwybod yn uniongyrchol gan Ofcom.
- 3.59 Byddem yn disgwyl i'r sawl sy'n cwyno edrych ar y Bwletin ar ôl 15 i 25 diwrnod gwaith o leiaf ar ôl i'w cwyn gael ei gwneud i gael gwybod beth yw'r canlyniad.⁵ Pan na fydd y sawl sy'n cwyno yn gallu canfod yn y Bwletin a yw ei gŵyn wedi cael sylw neu beidio, er enghraifft oherwydd anabledd neu oherwydd nad oes ganddo fynediad i'r rhyngwrwyd, byddem yn derbyn ymholiadau drwy e-bost, post, ffôn, gwasanaeth cyfnewid testun neu gyfnewid fideo, ac yn ymateb i gadarnhau bod yr achos naill ai'n dal i gael ei asesu neu ei fod wedi'i gau a

⁵ Yn gyffredinol, cyhoeddir y Bwletin bob pythefnos, er bod hyn weithiau'n cael ei ohirio oherwydd gwyliau banc a dros gyfnod y Nadolig. Mae pob Bwletin yn adrodd ar yr achosion sydd wedi'u cau rhwng wythnos a thair wythnos cyn cyhoeddi'r Bwletin, felly gallai gymryd hyd at 25 diwrnod gwaith i achos ymddangos yn y Bwletin sydd wedi'i gau o fewn y targed o 15 diwrnod gwaith. Pan fo cwyn yn fwy cymhleth, ni fyddai'n afresymol i'r sawl sy'n cwyno ddisgwyl i'r asesiad o'i gŵyn gymryd mwy o amser na hyn ac i ymddangos yn y Bwletin ar ôl cyfnod hwy.

beth oedd y canlyniad, er enghraifft, nid ydym yn mynd ar drywydd yr achos ymhellach neu rydym wedi lansio ymchwiliad.

- 3.60 Byddai'r newid arfaethedig hwn hefyd yn cysoni'r Gweithdrefnau Cyffredinol â gweithdrefnau gorfodi eraill yn Ofcom, gan gynnwys y [gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio](#) (y "Gweithdrefnau Safonau"), lle nad yw'r rheini sy'n cwyno yn cael gwybod am ganlyniad eu cwyn.

Effeithiau tebygol y newid arfaethedig

- 3.61 Fel yr esboniwyd uchod, dylai ein newid arfaethedig sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau. Byddai'r amser sy'n cael ei dreulio ar hyn o bryd yn gohebu â'r sawl sy'n cwyno yn cael ei ddefnyddio'n well i sicrhau bod darlledwyr yn cydymffurfio â'u gofynion perthnasol a allai achosi'r niwed mwyaf. Dylai'r newid hwn gael effaith gadarnhaol ar gynulleidfaoedd, ac mewn rhai achosion, ar wirfoddolwyr ac ar gymunedau targed.
- 3.62 Rydym yn cydnabod y gallai'r newid hwn gael effaith niweidiol ar rai grwpiau o bobl sy'n cwyno, yn enwedig y grwpiau hynny nad ydynt yn gallu defnyddio'r rhyngwrwd, neu nad ydynt yn hyderus yn ei ddefnyddio. Gall hyn gynnwys: unigolion hŷn; pobl anabl; pobl ar incwm isel; a'r rheini mewn ardaloedd gwledig (a allai rannu un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb) sydd â hyn a hyn o fynediad at y rhyngwrwd (ac felly at ein Bwletin). Nodwn fod y rhan fwyaf o'r cwynion a dderbyniwn yn cael eu gwneud drwy ein ffurflen ar-lein neu drwy e-bost, hynny yw, gan bobl sy'n defnyddio'r rhyngwrwd. Mae hyn yn golygu bod unrhyw effaith niweidiol bosibl yn debygol o fod yn gyfyngedig – yn wir, yn 2023/24, dim ond 12 cwyn a gawsom dros y ffôn a dim cwynion drwy'r post.⁶
- 3.63 Ar gyfer yr unigolion hynny nad ydynt yn gallu dod o hyd i ganlyniad eu cwyn drwy fynd ar y rhyngwrwd, rydym yn credu ei bod yn briodol rhoi mesurau lliniaru ar waith. Felly, rydym yn cynnig darparu canlyniad cwynion i'r rheini sy'n cwyno sy'n gofyn am hyn. Fel sy'n digwydd eisoes, gall y sawl sy'n cwyno gysylltu ag Ofcom i ofyn i'r canlyniad gael ei ddarparu mewn fformat arall drwy ffonio 020 7981 3040 neu [gysylltu â'n tîm Digidol gan ddefnyddio ffurflen ar-lein](#). Fodd bynnag, byddwn yn ychwanegu'r wybodaeth hon at y gweithdrefnau ac yn cynnwys cyfeiriad e-bost arall.
- 3.64 Pan fo'r sawl sy'n cwyno yn cysylltu â ni cyn i'n hasesiad ddod i ben, byddem yn gallu egluro sut mae dod o hyd i'r canlyniad ar-lein neu gytuno i ddarparu gwybodaeth am y canlyniad ar ôl i hyn gael ei benderfynu a bod y darlledwr wedi cael gwybod.
- 3.65 Dull arall fyddai gwyro oddi wrth ein gweithdrefnau ac ysgrifennu ac anfon drwy'r post at y sawl sy'n cwyno lle derbynnir cwyn dros y ffôn neu drwy'r post. Fodd bynnag, nid dyma'r dull rydym yn ei ffafrio oherwydd yr her o weithredu proses wahanol ar gyfer dulliau cwyno penodol.
- 3.66 Yn yr achosion prin lle nad ydym yn cyhoeddi canlyniad cwyn yn y Bwletin oherwydd ein bod o'r farn y byddai'n amhriodol rhoi cyhoeddusrwydd i'r mater sy'n destun cwyn, byddwn yn rhoi gwybod am y canlyniad yn uniongyrchol i'r sawl sy'n cwyno ac felly ni fyddai'r newid yn cael effaith negyddol ar y sawl sy'n cwyno mewn achosion o'r fath.

⁶ Rydym yn cofnodi ffynhonnell pob cwyn gan ddefnyddio ein system rheoli achosion.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i beidio â rhoi gwybod i'r sawl sy'n cwyno mwyach am ganlyniad eu cwyn? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cynnig 4: Cyfyngiadau amser ar gwyno

Safbwynt presennol

- 3.67 Mae'r gweithdrefnau presennol yn datgan y dylid cyflwyno cwynion sy'n ymwneud â chynnwys sydd wedi'i ddarlledu "cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl y darllediad neu'r digwyddiad perthnasol oherwydd y cyfyngiadau amser sydd ar ddarllledwyr i gadw recordiadau o'u hallbwn".
- 3.68 Mae'n rhaid i ddarllledwyr gadw recordiadau am rhwng 42 a 90 diwrnod calendr, yn dibynnu ar y math o drwydded sydd ganddyn nhw. Fel y nodir uchod, mae'r rhan fwyaf o gwynion am gynnwys sydd wedi'i ddarlledu sy'n cael eu trin o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol yn ymwneud â darllledwyr radio, ac mae'n rhaid iddyn nhw gadw recordiadau am 42 diwrnod.
- 3.69 Mae sawl ffordd o ddehongli'r amserlen bresennol "cyn gynted ag sy'n bosibl", ac mae'n cyflwyno risg bod cwynion sy'n ymwneud â chynnwys sydd wedi'i ddarlledu yn cael eu gwneud yn rhy agos at ddiwedd y cyfnod cadw ac felly na ellir eu hasesu.

Y newid a gynigir i'r gweithdrefnau

- 3.70 Pan fo cwynion yn ymwneud â chynnwys sydd wedi'i ddarlledu, rydym yn cynnig y dylid gwneud cwynion o fewn 20 diwrnod gwaith i ddarlledu'r cynnwys perthnasol. Pan fo cwynion yn ymwneud â materion oddi ar yr awyr yn unig, byddem yn parhau i ofyn i'r rhain gael eu gwneud cyn gynted â phosibl.
- 3.71 Rydym yn cynnig datgan yn y Gweithdrefnau Cyffredinol y gallwn ystyried ei bod yn briodol (er budd tegwch a/neu er mwyn cynnal ymchwiliad yn briodol) diwygio neu addasu'r cyfyngiad amser 20 diwrnod gwaith mewn achos penodol. Mewn unrhyw achos, rydym yn cynnig y dylai unrhyw un sy'n cwyno sy'n gofyn am ragor o amser esbonio i Ofcom pam ei fod yn credu fod hyn yn briodol, a hynny wrth gyflwyno'r gŵyn.

Y cyfiawnhad dros y newidiadau arfaethedig

- 3.72 Wrth asesu cydymffurfedd â gofynion sy'n ymwneud â rhaglenni, gofynnir i ddarllledwyr ddarparu recordiadau a gwybodaeth i Ofcom sy'n ymwneud â'r wythnos berthnasol. Os bydd cwyn yn dod i law ar ôl diwedd y cyfnod i'r darllledwr gadw recordiadau, mae risg fawr na allwn gael y dystiolaeth sydd ei hangen arnom i asesu'r gŵyn (a allai fod wedi cael ei hystyried yn flaenoriaeth fel arall oherwydd natur y niwed posibl).
- 3.73 Yn ein profiad ni, hyd yn oed pan fydd cwyn yn dod i law cyn diwedd y cyfnod cadw, gorau po cyntaf i ni allu gofyn am wybodaeth gan y darllledwr er mwyn i ni gael y dystiolaeth a'r wybodaeth orau bosibl. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ba gynnwys a oedd wedi'i amserlennu a'i ddarlledu yn ystod yr wythnos dan sylw ac unrhyw faterion a wynebodd y darllledwr yn ystod yr wythnos honno. Mae hyn hefyd o fudd i'r darllledwr, drwy ei gwneud hi'n haws ymateb i gwestiynau Ofcom, ac mae o fudd i Ofcom gan ein galluogi i wneud penderfyniad mwy gwybodus am gydymffurfedd y darllledwr.

- 3.74 Po hwyraf y derbynnir cwyn, y mwyaf yw'r risg y bydd Ofcom yn canolbwyntio ei adnoddau ar asesu cwynion am faterion sydd eisoes wedi cael eu datrys yn ystod y cyfnod rhwng darlledu'r cynnwys a'r gŵyn sy'n cael ei gwneud, er enghraifft, lle mae diffyg dros dro o ran darlledu cynnwys yn benodol ar gyfer cymuned darged gorsaf radio cymunedol oherwydd salwch staff neu wirfoddolwyr. Mae risg hefyd ein bod ar hyn o bryd yn blaenoriaethu asesu cwynion a gyflwynir yn nes at ddiwedd y cyfnod cadw o 42 diwrnod (a chyn y gellir dileu unrhyw recordiadau perthnasol), yn hytrach nag ystyried lle mae ein hadnoddau'n cael eu defnyddio orau yn gyntaf.⁷ Felly, dylai'r cynnig hwn ganiatáu i ni ddefnyddio ein fframwaith arfaethedig newydd o ran blaenoriaethau gweinyddol (gweler Cynnig 1) mewn ffordd glir a chyson mewn set ehangach o achosion.
- 3.75 Am y rhesymau a nodir uchod, rydym yn credu ei bod yn briodol mynnu bod y sawl sy'n cwyno yn cyflwyno cwyn sy'n ymwneud â chynnwys sydd wedi'i ddarlledu cyn gynted â phosibl ar ôl darlledu'r cynnwys perthnasol a chyn diwedd y cyfnod cadw recordiadau. Rydym o'r farn bod amserlen o 20 diwrnod gwaith yn briodol ac er budd pennaf y sawl sy'n cwyno a darlledwyr ac yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.
- 3.76 Yn gyffredinol, mae ugain diwrnod gwaith yn 28 diwrnod calendr, ac eithrio pan fydd y cyfnod yn cyd-daro â gwyliau banc. Felly, byddai hyn yn caniatáu tua phytnefnos rhwng cwyn am orsaf radio yn cael ei gwneud a diwedd y cyfnod cadw (sy'n 42 diwrnod ar hyn o bryd) i Ofcom gael y cynnwys perthnasol gan y darlledwr.
- 3.77 Yn ein barn ni, nid ystyried cwynion a dderbynnir ar ôl 20 diwrnod gwaith yw'r ffordd orau o ddefnyddio ein hadnoddau. Gellid eu defnyddio yn lle hynny i ganolbwyntio ar asesu ac ymchwilio i achosion a allai achosi'r niwed mwyaf i ddefnyddwyr. Yn wir, o'r 17 cwyn a gyflwynwyd ar ôl 20 diwrnod gwaith yn 2023/24, ni aethpwyd ar drywydd 16 ac roedd yr un arall yn ymwneud â mater a oedd yn digwydd ar yr adeg y gwnaed y gŵyn.
- 3.78 Rydym yn disgwyl mai hyn a hyn o achosion fydd pan fyddwn yn penderfynu (er budd tegwch a/neu er mwyn cynnal ymchwiliad yn briodol) diwygio neu addasu'r cyfyngiad amser 20 diwrnod gwaith mewn achos penodol. Gall achosion o'r fath gynnwys:
- oedi o ran derbyn cwynion drwy'r post (yn yr achos hwn, ni fyddem bob amser yn disgwyl i'r sawl sy'n cwyno egluro pam ei fod yn credu ei bod yn briodol gofyn am ragor o amser);
 - pan fyddwn o'r farn bod cwyn yn codi materion sy'n debygol o achosi niwed sylweddol; neu
 - pan fo'r gŵyn, yn ei hanfod, yn ymwneud â materion sy'n digwydd dros gyfnod hir o amser.
- 3.79 Byddai'r newid arfaethedig hwn hefyd yn dod â'r cyfyngiad amser yn unol â [Gweithdrefnau Safonau](#) Ofcom a [gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd](#), sydd eisoes yn mynnu bod y rheini sy'n cwyno yn cyflwyno cwynion o fewn 20 diwrnod gwaith. Er bod y rhain yn weithdrefnau ar wahân, rydym yn gweld budd o gysoni ein dulliau gweithredu ar gyfer cwynion am ddarlledwyr lle mae'r gweithdrefnau'n cael yr un effaith. Byddai hyn yn gwneud y broses yn haws i'r sawl sy'n cwyno a darlledwyr ei deall.

⁷ Yn y cyd-destun hwn, rydym yn nodi, er bod nifer y cwynion a gafwyd o fewn 20 diwrnod gwaith wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf (o 83% yn 2021/22, 91% yn 2022/23 i 93% yn 2023/24), fod dal 17 o gwynion wedi dod i law ar ôl 20 diwrnod gwaith yn 2023/24.

Effeithiau tebygol y newid arfaethedig

- 3.80 Ac ystyried y nifer fach o gwynion a gafwyd fwy na 20 diwrnod gwaith ar ôl darlledu cynnwys perthnasol, rydym yn rhagweld mai bach iawn fydd effaith y newid hwn. Fodd bynnag, dylai fod o fudd i ddarlledwyr gan ein bod yn disgwyl, yn gyffredinol, ein bod yn gallu gofyn am recordiadau a gwybodaeth ganddyn nhw ddim hwyrach nag 20 diwrnod gwaith ar ôl darlledu cynnwys perthnasol, pan fo cwyn yn cael ei gwneud ar ddiwedd y cyfyngiad amser, ac fel arfer llawer cynt. Er y gallwn benderfynu diwygio neu addasu'r cyfyngiad amser o 20 diwrnod gwaith mewn achos penodol, byddai hyn yn ymwneud ag amgylchiadau penodol ac yn berthnasol i is-set fach o gwynion, felly byddai'n cael effaith gyfyngedig.
- 3.81 Rydym hefyd yn disgwyl y bydd y newid hwn o fudd i'r sawl sy'n cwyno oherwydd dylem bob amser fod mewn sefyllfa i gael unrhyw recordiad perthnasol ac asesu cwynion. Efallai hefyd y bydd y sawl sy'n cwyno yn teimlo bod cael cyfyngiad amser penodol mewn iaith uniongyrchol a chdir yn haws ei ddeall na "cyn gynted ag sy'n bosibl", yn enwedig y rhai sy'n niwroamrywiol.
- 3.82 Fel yr eglurwyd uchod, dylai'r cynnig hwn ganiatáu hefyd i ni ddefnyddio ein fframwaith blaenoriaethau gweinyddol mewn ffordd glir a chyson mewn set ehangach o achosion. Dylai hyn ganiatáu i ni gyfeirio ein hadnoddau at asesu ac ymchwilio i achosion sy'n debygol o achosi'r niwed mwyaf i ddefnyddwyr, a dylai hyn fod o fudd i gynulleidfaoedd a'r gymuned darged.
- 3.83 Rydym yn cydnabod y bydd rhai sy'n cwyno yn methu, o bosibl, â chyflwyno cwyn o fewn 20 diwrnod gwaith am gynnwys sydd wedi'i ddarlledu. Fel yr eglurwyd uchod, byddwn yn cadw disgrisiwn i ddiwygio neu addasu'r cyfyngiad amser 20 diwrnod gwaith mewn achos penodol.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid gwneud cwynion o fewn 20 diwrnod gwaith i ddarlledu'r cynnwys perthnasol? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Newidiadau ychwanegol: ailstrwythuro'r gweithdrefnau, a symleiddio, egluro a diweddarau testun

- 3.84 Yn ogystal â'r newidiadau arfaethedig a amlinellir uchod, rydym wedi manteisio ar y cyfle hwn i ddiwygio'r Gweithdrefnau Cyffredinol i'w gwneud yn haws eu dilyn drwy ailstrwythuro'r ddogfen i'w gwneud yn haws ei defnyddio a symleiddio'r testun lle bo hynny'n briodol. Rydym hefyd wedi ystyried sut mae'r gweithdrefnau'n adlewyrchu ein profiad ymarferol o ddydd i ddydd o asesiadau ac ymchwiliadau, a phrofiad darlledwyr a'r sawl sy'n cwyno.
- 3.85 Er ein bod yn cynnig addasu rhywfaint o'r testun yn y gweithdrefnau, nid yw ein dull cyffredinol o ymdrin â'r materion hyn wedi newid yn sylweddol. Bydd Ofcom yn parhau i sicrhau: bod unrhyw gamau gorfodi yn cael eu cymryd mewn modd teg a thryloyw; bod darlledwyr yn cael cyfle i ymateb i Ofcom yn ystod asesiadau ac ymchwiliadau; a bod achosion yn cael eu cwblhau'n effeithlon ac mor brydlon â phosibl.

- 3.86 Isod, rydym yn nodi'r prif newidiadau arfaethedig i destun a strwythur y ddogfen Gweithdrefnau Cyffredinol, o'i gymharu â lleoliad yr un wybodaeth yn y Gweithdrefnau Cyffredinol presennol. Yn ogystal â'r newidiadau a nodir yn y tabl isod, rydym hefyd yn cynnig cyfieithu'r gweithdrefnau i'r Gymraeg a chadarnhau y gellir gwneud cwynion yn Gymraeg yn fersiynau Cymraeg a Saesneg y ffurflen gwyno ar-lein.

Gweithdrefnau Cyffredinol diwygiedig arfaethedig

Lleoliad yn y Gweithdrefnau Cyffredinol presennol (os yn berthnasol)

Cyflwyno adrannau a phenawdau ychwanegol a thudalen gynnwys i alluogi defnyddwyr i symud yn rhwydd i'r adran fwyaf priodol o'r gweithdrefnau.

Ychwanegu adran 'Trosolwg' i ddarparu crynodeb Cymraeg/Saesneg clir lefel uchel o'r gweithdrefnau, a siart lif i ddarparu crynodeb gweledol o'r broses rydym yn ei dilyn.

Mae'r Gweithdrefnau Cyffredinol presennol wedi'u nodi mewn un adran, wedi'u rhannu yn ôl is-benawdau heb dudalen gynnwys.

Mae'r adran 'Cyflwyniad' yn nodi dyletswyddau Ofcom (o dan 'Fframwaith statudol' yn flaenorol) ac yna'n nodi: beth mae'r Gweithdrefnau Cyffredinol yn ei gynnwys; i bwy maen nhw'n berthnasol; a'u statws. Mae'r cynnwys yn yr adran hon hefyd wedi cael ei symleiddio lle'r oedd yr iaith yn ddiangen o gymhleth.

Mae cynnwys Paragraffau 1.1 i 1.13 wedi cael ei ad-drefnu o dan is-benawdau newydd yn y gweithdrefnau diwygiedig arfaethedig i gadw gwybodaeth debyg gyda'i gilydd.

Mae'r adran 'Cyflwyno cwyn' yn nodi sut mae cwyno, a sut mae Ofcom yn delio â gwybodaeth bersonol y sawl sy'n cwyno (nad yw wedi'i chynnwys yn flaenorol yn y gweithdrefnau).

Paragraffau 1.15 i 1.23. Nid yw llawer o'r cynnwys wedi newid, ac eithrio'r wybodaeth ychwanegol am wneud cwyn yn Gymraeg ac ymestyn paragraff 1.23 i wneud pob maes buddiant yn glir.

Mae'r adran 'Asesiadau' yn cynnwys gwybodaeth am asesiadau ar ein liwt ei hunain (y cyfeiriwyd atyn nhw'n flaenorol ar ddiwedd y ddogfen), y broses asesu (gan gynnwys esboniad mwy strwythuredig o'r broses rydym yn ei dilyn) a'n blaenoriaethau gweinyddol.

Paragraffau 1.14, 1.24 i 1.27, y cyfeiriwyd atynt fel 'Asesiad cychwynnol'. Mae'r gweithdrefnau diwygiedig yn egluro mai 'asesiad cychwynnol' yw cam cyntaf y broses asesu ehangach.

Mae'r adran 'Ymchwiliadau' yn nodi sut rydym: yn agor ymchwiliadau ac yn gofyn am sylwadau; yn paratoi ein Safbwynt Rhagarweiniol; ac yn gwneud ein Penderfyniad terfynol. Mae hefyd yn nodi gwybodaeth am ddatgelu gwybodaeth.

Paragraffau 1.14, 1.28 i 1.47. Rydym wedi egluro'r wybodaeth am ddatgelu gwybodaeth i adlewyrchu sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol.

Mae'r adran 'Camau pellach yn dilyn ymchwiliad' yn cynnwys gwybodaeth newydd am gyfarfodydd monitro a chydymffurfio, yn ogystal â gwybodaeth gyfredol am gyfarwyddiadau a sancsiynau.

Paragraffau 1.49 i 1.53. Rydym wedi egluro'r wybodaeth bresennol am gyfarwyddiadau a sancsiynau.

Symud gwybodaeth am gyfyngiadau amser o ddiwedd y ddogfen i'r adrannau perthnasol am asesiadau (paragraff 4.11) ac ymchwiliadau (paragraff 5.5 a 5.15).

Paragraff 1.48.

Ychwanegu gwybodaeth am ganlyniadau posibl ar gyfer yr asesiadau (paragraff 4.13) ac ymchwiliadau (paragraff 5.21).

Ddim yn bresennol yn y gweithdrefnau presennol.

- 3.87 Mae ein Gweithdrefnau Cyffredinol diwygiedig arfaethedig wedi'u nodi yn Atodiad 6, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Rydym hefyd wedi cyhoeddi'r Gweithdrefnau Cyffredinol presennol yn yr un templed yn Atodiad 7.

Effeithiau tebygol y newidiadau arfaethedig

- 3.88 Rydym wedi cael adborth gan ddarlledwyr ei bod yn anodd deall y gweithdrefnau presennol. Drwy wneud y gweithdrefnau'n haws eu deall a'u dilyn, rydym yn disgwyl y bydd hyn o fudd arbennig i ddarlledwyr, y sawl sy'n cwyno a chydweithwyr Ofcom a allai ei chael yn anodd darllen neu ddeall y gweithdrefnau presennol fel: pobl hŷn; pobl sy'n niwroamrywiol; a'r rheini nad yw Saesneg (neu Gymraeg) yn iaith gyntaf iddyn nhw.
- 3.89 Rydym o'r farn y bydd y cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddarlledwyr yn gyffredinol, drwy wneud ein gwaith gorfodi o dan y gweithdrefnau hyn yn haws ei ddeall ac egluro'r penderfyniadau mae Ofcom yn eu gwneud ynghylch cydymffurfio â gofynion perthnasol. Er bod y Gweithdrefnau Cyffredinol yn berthnasol i bob darlledwr, mae'r rhan fwyaf o gwynion a gawn am wasanaethau radio cymunedol, sy'n endidau bach ac yn aml yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr. Mae'r darlledwyr hyn yn fwy tebygol o wasanaethu un neu fwy o'r grwpiau a nodir ar ddechrau'r adran hon ac yn fwy tebygol o gynnwys aelodau o'r grwpiau hyn wrth roi'r gwasanaeth ar waith, oherwydd natur radio cymunedol. Felly, bydd y newidiadau hyn hefyd o fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r grwpiau hynny os ydyn nhw'n dymuno cwyno wrth Ofcom am ddarlledwr.
- 3.90 Bydd cyfieithu'r gweithdrefnau i'r Gymraeg a chadarnhau o fewn y gweithdrefnau y gellir gwneud cwynion yn Gymraeg yn fersiynau Cymraeg a Saesneg y ffurflen gwyno yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg. Mae gennym eisoes ffurflen Gymraeg ar-lein ar gyfer cyflwyno cwynion ond nid ydym yn gwahodd pobl yn benodol i gyflwyno cwynion yn Gymraeg nac yn cyfeirio at hyn o fewn y gweithdrefnau. Mae'n rhesymol meddwl felly nad yw'r sawl sy'n dymuno cwyno yn Gymraeg ar hyn o bryd yn ymwybodol o'r ffurflen Gymraeg ar-lein, na'u bod yn gallu cwyno yn Gymraeg yn fwy cyffredinol.
- 3.91 Rydym o'r farn hefyd y bydd cyfieithu'r gweithdrefnau i'r Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 6: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein newidiadau ychwanegol arfaethedig i'r Gweithdrefnau Cyffredinol?

Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno ag asesiad Ofcom o effaith ei newidiadau arfaethedig, sydd yn yr isadrannau uchod (gan gynnwys yr effaith bosib ar grwpiau penodol o bobl, a'r effaith ar gydraddoldeb)? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 8: A oes unrhyw effaith yn sgil y cynigion hyn nad yw Ofcom wedi'i chydabod yn y ddogfen hon?

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effaith bosibl ein cynigion ar y Gymraeg? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 10: Ydych chi'n credu y byddai modd llunio neu ddiwygio ein cynnig er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu'n lleihau/cael gwared ar unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

4. Y camau nesaf a gynigir

- 4.1 Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor am 12 wythnos. Rydym yn gwahodd rhanddeiliaid i ymateb unrhyw bryd cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben, gan ateb unrhyw un neu bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad.
- 4.2 Gall Ofcom ddarparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau ar gais, er enghraifft, PDF hygyrch, print bras, fersiwn hawdd ei deall, recordiad sain neu braille. Os byddwch yn rhoi gwybod i ni pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi ac ym mha fformat, byddwn yn ystyried y cais ac yn ymateb o fewn 21 diwrnod.
- 4.3 Yn ystod y cyfnod ymgynghori a chyn cyhoeddi'r datganiad, bydd y Gweithdrefnau Cyffredinol presennol yn parhau i fod yn berthnasol.
- 4.4 Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn ystyried yr ymatebion a ddaeth i law, ac yna byddwn yn cyhoeddi datganiad yn crynhoi'r ymatebion hyn ac yn nodi ein penderfyniad terfynol. Byddwn yn ystyried a ddylai unrhyw ymatebion a/neu dystiolaeth a ddaw i law newid ein cynigion.
- 4.5 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, os byddwn yn penderfynu gweithredu fersiwn newydd o'r Gweithdrefnau Cyffredinol, bydd Ofcom yn cyhoeddi'r rhain ochr yn ochr â'r datganiad. Gan na fydd y newidiadau arfaethedig yn mynnu bod darlledwyr yn newid eu prosesau, byddai'r fersiwn newydd o'r Gweithdrefnau Cyffredinol yn dod i rym ar ddiwrnod ei chyhoeddi. Fodd bynnag, byddai unrhyw achosion sydd eisoes ar agor yn cael sylw dan y fersiwn o'r Gweithdrefnau Cyffredinol a oedd mewn grym adeg agor yr achos.

A1. Asesiadau effaith

Asesiad Effaith

- A1.1 Mae Adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynigion a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.
- A1.2 Yn fwy cyffredinol, mae asesiadau effaith yn rhan o lunio polisiau da ac felly, rydym yn disgwyl eu cynnal yng nghyswllt y rhan fwyaf o'n cynigion. Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maen nhw hefyd yn ein helpu i esbonio'r penderfyniadau polisi rydym wedi penderfynu eu gwneud a pham rydym yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf. Mae ein [canllawiau ar asesu effaith](#) yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.
- A1.3 Mae'r dyletswyddau perthnasol mewn perthynas â'r cynigion sydd dan sylw yn ein hymgyngoriad wedi'u nodi yn Atodiad 2 yr ymgynghoriad hwn.
- A1.4 Mae manylion yr asesiad o'r effaith rydym wedi'i gynnal ar gael yn Adran 3 yr ymgynghoriad hwn o dan yr is-bennawd 'Effeithiau tebygol y newidiadau arfaethedig' ar gyfer pob un o'r pedwar cynnig a'r adran newidiadau ychwanegol.
- A1.5 Yn gryno, rydym yn disgwyl y bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar ddarlledwyr, ar ddinasyddion ac ar ddefnyddwyr. Yn benodol, rydym yn disgwyl i'n cynigion:
- rhoi eglurder a thryloywder a helpu i sicrhau cysondeb yn ein penderfyniadau sy'n ymwneud ag asesiadau ac ymchwiliadau o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol;
 - sicrhau y gallwn barhau i gyfeirio ein hadnoddau at achosion a allai beri'r niwed mwyaf;
a
 - hyrwyddo cyfle cyfartal lle gwneir cwynion am allu cymryd rhan mewn gwasanaeth trwyddedig (gweler asesu'r effaith ar gydraddoldeb isod).

Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

- A1.6 Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol: oed; anabled; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn cyfeirio at grwpiau o bobl sydd â'r nodweddion gwarchoddedig yma fel "grwpiau cydraddoldeb". Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.
- A1.7 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ("Deddf 1998") hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategoriâu a amlinellir yn Neddf 1998. Mae [Cynllun](#)

[Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon](#) Ofcom yn esbonio sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

- A1.8 I'n helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.
- A1.9 Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydym yn meddwl yn fwy eang na phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb, ac yn meddwl am yr effeithiau posibl ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 yn ein [canllawiau ar asesu effaith](#)).
- A1.10 Yn benodol, mae adran 3(4) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu hefyd ein bod yn rhoi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol yn yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae'r rhain yn cynnwys:
- natur fregus plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau, yn ein barn ni, yn golygu bod angen gwarchodaeth arbennig arnynt;
 - anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel; a
 - gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.
- A1.11 Rydym yn edrych ar yr effaith y mae ein polisi'n debygol o'i chael ar bobl, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae hyn hefyd yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, waeth beth fo'u cefndir a'u hunaniaeth.
- A1.12 Rydym yn trwyddedu darlledwyr sy'n diwallu amrywiaeth o nodweddion gwarchoddedig a grwpiau penodol eraill o bobl. Yn benodol, rydym o'r farn bod y grwpiau isod yn cael eu gwasanaethu gan ddarlledwyr rydym yn eu trwyddedu, ac felly os yw ein cynigion yn effeithio ar ddarlledwyr ac ar y sawl sy'n cwyno, y byddan nhw hefyd yn effeithio ar y grwpiau hyn:
- pobl o wahanol oedrannau, a phobl agored i niwed, gan gynnwys plant;
 - pobl ag anabledd;
 - pobl o wahanol hiliau a grwpiau ethnig;
 - pobl sydd â chrefydd neu gred;
 - pobl sy'n ystyried eu hunain yn Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywedol(LHDT)+;
 - pobl o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol; a
 - pobl mewn gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau, a phobl mewn ardaloedd trefol a gwledig.
- A1.13 Rydym wedi esbonio effeithiau tebygol ein cynigion ar wahanol grwpiau cydraddoldeb yn adran 3 yr ymgynghoriad hwn, o dan yr is-bennawd 'Effeithiau tebygol y newidiadau arfaethedig' ar gyfer pob un o'r pedwar cynnig a'r adran newidiadau ychwanegol. I grynhoi, rydym o'r farn bod ein cynigion yn debygol o gael effaith gadarnhaol iawn ar y grwpiau canlynol o bobl o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol a helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal:
- Efallai y bydd y sawl sy'n cwyno ac yn agored i niwed sydd o bosib ag un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig yn teimlo eu bod yn gallu cwyno am yr ymddygiad mwyaf niweidiol gan ddarlledwr ac, os byddan nhw'n gwneud hynny, gallai hyn gymell cydymffurfedd â gofynion, gan gynnwys cyfranogi yn y gwasanaeth trwyddedig.

- b) Efallai y bydd darlledwyr, y sawl sy'n cwyno a chydweithwyr yn Ofcom sy'n ei chael hi'n anodd darllen neu ddeall y gweithdrefnau presennol yn elwa o weithdrefnau sy'n haws eu deall a'u dilyn. Gallai'r grwpiau hyn gynnwys pobl hŷn, pobl sy'n niwroamrywiol, a'r rheini nad yw Saesneg (neu Gymraeg) yn iaith gyntaf iddyn nhw.
- A1.14 Rydym o'r farn y gallai ein cynigion gael effaith niweidiol ar rai grwpiau sy'n cwyno, yn enwedig y grwpiau hynny nad ydynt yn gallu defnyddio'r rhyngwyd, neu nad ydynt yn hyderus yn ei ddefnyddio. Gall hyn gynnwys: unigolion hŷn; pobl anabl; pobl ar incwm isel; a'r rheini mewn ardaloedd gwledig (a allai rannu un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb) sydd â hyn a hyn o fynediad at y rhyngwyd. Mae hyn yn debygol o effeithio ar y grwpiau hyn mewn ffordd wahanol i'r boblogaeth gyffredinol, wrth ystyried nad ydym yn cynnig rhoi gwybod i'r rheini sy'n cwyno am ganlyniad eu cwynion mwyach gan fod yr wybodaeth hon ar gael ar-lein yn ein Bwletin Broadcast and On Demand.
- A1.15 Rydym wedi ystyried ffyrdd o liniaru'r effeithiau posibl ac rydym wedi cynnig darparu canlyniad cwynion i'r rheini sy'n cwyno sy'n gofyn am hyn. Rydym eisoes yn cynnig darparu'r Bwletin Broadcast and On Demand mewn fformat gwahanol. Byddem hefyd yn croesawu ymatebion i'n hymgyngoriad ar yr effaith bosibl ar y grwpiau uchod, a ffyrdd eraill y gallem liniaru neu ddileu'r effeithiau posibl hyn.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

- A1.16 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith sy'n cael ei chydnabod yn swyddogol yng Nghymru. Arweiniodd y ddeddfwriaeth hon hefyd at sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, sy'n rheoleiddio ac yn monitro ein gwaith. Mae'n rhaid i Ofcom ystyried y Gymraeg wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisiau sy'n berthnasol i Gymru (gan gynnwys cynigion nad ydynt wedi'u targedu at Gymru'n benodol ond sydd o ddi-ddordeb ledled y DU).
- A1.17 Os yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, rydym yn ystyried effaith bosibl cynnig polisi ar (i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym hefyd yn ystyried sut byddai modd llunio cynnig er mwyn iddo gael neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.
- A1.18 Rydym wedi egluro effeithiau posibl ein cynigion ar y Gymraeg yn adran 3 yr ymgynghoriad hwn, yn enwedig paragraffau 3.88 i 3.91 sy'n ymwneud â'n newidiadau ychwanegol arfaethedig i'r Gweithdrefnau Cyffredinol. Yn gryno, rydym o'r farn y gall ein cynigion gael effaith ar y Gymraeg drwy sicrhau bod ein gweithdrefnau ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg ac yn gwahodd cwynion yn benodol yn y Gymraeg. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Byddem hefyd yn croesawu ymatebion i'n hymgyngoriad ar yr effaith bosibl ar y Gymraeg a ffyrdd eraill y gallwn gynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar hyn.

A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut mae ymateb

- A2.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 25 Chwefror 2025.
- A2.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn <https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/broadcast-standards/consultation-general-procedures-for-investigating-breaches-of-broadcast-licences-consultation-on-revising-the-procedures/>. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.
- A2.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol eraill, a fydddech chi cystal â'i anfon dros e-bost at broadcast.licensing@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.
- A2.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:
Adolygiad o Weithdrefnau Cyffredinol/General Procedures Review
c/o Broadcast Licensing Team
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
- A2.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain:
- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad fod yn fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
 - gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.
- A2.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)
- A2.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.
- A2.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.
- A2.9 Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi cael eu rhestru yn Atodiad X. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai hi'n bosib i chi egluro pam rydych yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.
- A2.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i broadcast.licensing@ofcom.org.uk.

Cyfrinachedd

- A2.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.
- A2.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.
- A2.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A2.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.
- A2.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

Y camau nesaf

- A2.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod haf 2025.
- A2.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A2.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 3.
- A2.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym wrth ein bodd yn cael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A2.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:
- A2.21 Corporation Secretary
Ofcom

Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

A3. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

A3.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

A3.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A3.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A3.4 Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosib. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.

A3.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A3.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

A3.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd
- Ymateb cyfan
- Sefydliad
- Rhan o'r ymateb

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedd cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw Nac ydw

Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

A5. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r hyn a gynigiwn ar gyfer fframwaith blaenoriaethau gweinyddol? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i rannu crynodeb o'r materion a godwyd gyda'r darlledwr yn hytrach na thestun llawn y gŵyn ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i beidio â rhannu enw'r sawl sy'n cwyno â'r darlledwr, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i beidio â rhoi gwybod i'r sawl sy'n cwyno mwyach am ganlyniad eu cwyn? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid gwneud cwynion o fewn 20 diwrnod gwaith i ddarlledu'r cynnwys perthnasol? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 6: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein newidiadau ychwanegol arfaethedig i'r Gweithdrefnau Cyffredinol?

Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno ag asesiad Ofcom o effaith ei newidiadau arfaethedig, sydd yn yr isadrannau uchod (gan gynnwys yr effaith bosibl ar grwpiau penodol o bobl, a'r effaith ar gydraddoldeb)? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 8: A oes unrhyw effaith yn sgil y cynigion hyn nad yw Ofcom wedi'i chydabod yn y ddogfen hon?

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effaith bosibl ein cynigion ar y Gymraeg? Rhowch ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb.

Cwestiwn 10: Ydych chi'n credu y byddai modd llunio neu ddiwygio ein cynnig er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu'n lleihau/cael gwared ar unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Cwestiwn 11: Dywedwch wrthym sut y daethoch ar draws yr ymgynghoriad hwn.

- E-bost gan Ofcom
- Wedi'i weld ar y cyfryngau cymdeithasol
- Wedi dod o hyd iddo ar wefan Ofcom
- Wedi dod o hyd iddo ar wefan arall
- Wedi clywed amdano ar y teledu neu'r radio
- Wedi darllen amdano mewn papur newydd neu gylchgrawn
- Wedi clywed amdano mewn digwyddiad

- Rhywun wedi dweud wrthyf amdano neu wedi'i rannu â mi
- Arall (rhowch fanylion)

A6. Gweithdrefnau Cyffredinol diwygiedig arfaethedig

[Caiff yr atodiad hwn ei gyhoeddi fel dogfen ar wahân.](#)

A7. Gweithdrefnau Cyffredinol Presennol

[Caiff yr atodiad hwn ei gyhoeddi fel dogfen ar wahân.](#)